Sioe
ABERYSTWYTH and Ceredigion County Show
a Sir Ceredigion

Wyn James
Fronfraith Fach
Comins Coch
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3BH

☎ 01970 617481

Cyfleoedd Nawdd a Hysbysebu 2017

Aeth blwyddyn arall heibio, ac mae'r hydref wedi rhoi amser i ni werthuso Sioe 2016. Llynedd, fe groesawom ni'r Hairy Bikers i'r maes i ffilmio eitem ar gyfer eu cyfres 'Chicken & Egg' a ddarlledwyd ar y BBC ym mis Medi.

Mae cynlluniau ar droed ar gyfer Sioe 2017 ac, yn ogystal â'r cystadlaethau ac atyniadau cyfarwydd, mae datblygiadau cyffrous yn ein hadran gŵn a fydd yn annog perchnogion cŵn i roi cynnig ar weithgareddau hwylus gyda'u cŵn, yn hytrach na'r elfen sioe yn unig.

Cynhelir y Sioe, sydd wedi hen ennill ei phlwyf fel sioe sir swyddogol, ddydd Sadwrn 10 Mehefin 2017, a gyda dros £10,000 yn cael ei gynnig mewn gwobrau, mae'n denu nifer o gystadleuwyr ac ymwelwyr o bob cwr o Gymru a thu hwnt. Trwy gefnogi'r Sioe, bydd eich nawdd yn eich galluogi i gysylltu'n uniongyrchol ag arddangoswyr ac ymwelwyr o bob cwr o'r rhanbarth a thu hwnt.

Gellid teilwra pecynnau nawdd at eich anghenion a'ch cyllideb, ac amgaeaf ychydig o enghreifftiau o'r pecynnau sydd ar gael. Fel y llynedd, bydd gan noddwyr pecyn arian, aur a phlatinwm gyfle i hysbysebu AM DDIM yn rhaglen y Sioe.

Nodwch fod gan y Sioe 8 brif adran: Merlod a Cheffylau, Gwartheg, Defaid, Dofednod, Cŵn, Hen Beiriannau, Cynnyrch a Chneifio. Gall noddwyr platinwm ddewis noddi un o'r prif adrannau hyn neu atyniad, a gall noddwyr pecyn aur noddi brîd o fewn yr adrannau hynny. Yn naturiol, byddwn yn cadw'r dewis cyntaf i fusnesau ac unigolion a gefnogodd ni yn 2016.

I drafod y mater ymhellach a heb unrhyw rwymedigaeth, cysylltwch â'r Cydgysylltydd Noddi, Nikki Atkinson, Westward Ho, 33 Dinas Terrace, Trefechan, Aberystwyth SY23 1BT ☎ 07568 392 391 ar ôl 6yh, e-bost sponsor.abershow@hotmail.co.uk neu cysylltwch yn uniongyrchol gyda minnau.

Diolch i chi ymlaen llaw am ddangos diddordeb yn Sioe Aberystwyth a Sir Ceredigion a gobeithiwn eich gweld chi ar y diwrnod, lle bydd croeso cynnes i chi ym mhafiliwn y noddwyr.

Yn gywir,

Wyn James

Wyn James
Cadeirydd

Enghreifftiau o becynnau nawdd sydd ar gael:

Ar gael i Noddwyr:

	£75 Efydd	£100 Arian	£150 Aur	£400 Platinwm
Bathodyn noddwr (sy'n gwarantu mynediad AM DDIM i'r sioe)	2	2	2	2
Tocynnau mynediad ychwanegol	-	2	3	5
Baneri	1	2	3	**Diderfyn**
Copi o raglen y Sioe (wrth ddangos bathodyn noddwr)	1	1	1	1
Defnydd o bafiliwn y noddwyr gyda lluniaeth ysgafn	✔	✔	✔	✔
Cydnabyddiaeth yn rhaglen swyddogol y Sioe ac ar fwrdd y noddwyr a osodir ar faes y Sioe	✔	✔	✔	✔
Hysbyseb ddu a gwyn yn rhaglen y sioe wedi ei darparu gan eich sefydliad Mae tudalen gefn liw ar gael i noddwyr platinwm- tudalen lawn A5 'portrait'(yn ddibynnol ar argaeledd)		½ tudalen	Tudalen lawn	Tudalen lawn
Logo'r cwmni a dolen ar wefan y Sioe	-	-	4	4
Cyhoeddiadau gan y sylwebyddion dros yr uchelseinydd Gyda'r testun wedi'i gytuno o flaen llaw	-	-	✔	✔
Cydnabyddiaeth ar y cyfryngau cymdeithasol e.e. Facebook a Twitter	-	-	✔	✔
Mynediad i'r cylch cystadlu yn eich priod adran (lle'n addas)	-	-	-	✔
Cyfle am ffotograff cyhoeddusrwydd	-	-	-	✔
Hyrwyddo yn y datganiad swyddogol i'r wasg cyn ac ar ôl y digwyddiad	-	-	-	✔

Anfonwch yr hysbyseb atom ar ffurf PDF neu JPEG erbyn 22 Ebrill 2017 at **sponsor.abershow@hotmail.co.uk**